**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Llun, 13 Ionawr 2020 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd M Griffiths | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd A Cox |

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

## 31 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis a J. Brencher.

## 32 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:

Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol - "Yn fy swydd fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor, fel sydd wedi'i nodi ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)".

## 33 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Llywodraethol ei adroddiad mewn perthynas ag ymateb y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r cynigion sy'n rhan o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) drafft. Dywedodd fod y mater wedi'i drafod gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2019, a bod yr Aelodau wedi cydnabod yr amserlen heriol ar gyfer ymgysylltu. Ar ôl hynny, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ei ymateb erbyn 3 Ionawr 2020.

Cafodd cais pellach ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn ymestyn y dyddiad cau gwreiddiol fel bod modd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu anfon ymateb. Cafodd y cais hwn ei gymeradwyo a chafodd y dyddiad cau ei ymestyn i 5pm ar 14 Ionawr 2020. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth i gyflwyno'r ymateb i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2020.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu crynodeb ddefnyddiol sy'n amlygu'r prif benawdau sy'n rhan o'r Bil (Atodiad 3 yr adroddiad) er gwybodaeth. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at y ffurflenni sydd ynghlwm, sy'n adlewyrchu'r meysydd i'w hystyried. Byddai hyn yn helpu'r Aelodau i roi trefn ar eu hadborth terfynol.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai pob adran sy'n rhan o'r Bil gael ei hystyried ar wahân er mwyn rhoi strwythur a ffocws i'r ymatebion a ddarperir gan y Pwyllgor.

## Ymgynghoriad - Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

Mae'r Aelodau'n ymwybodol nad yw'r amserlenni yn ôl disgresiwn y Pwyllgor ac fe wnaethant gydnabod bod amserlenni ar gyfer cyflwyno ymatebion yn heriol. Wedi dweud hynny, mae Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn ddiolchgar am yr estyniad ychwanegol i'w dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion, yn ogystal â'r cyfle i ymateb i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

**Rhan 1: Etholiadau**:

Croesawodd yr Aelodau’r cynigion ynghylch diwygio'r drefn etholiadol, serch hynny roeddent yn teimlo bod cyfleoedd i fynd â'r gwaith ymhellach, e.e. ystyried pleidleisio gorfodol, wedi'u colli.

Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau'n cefnogi'r etholfraint i bobl ifainc 16-17 oed, ac o'r farn ei bod hi'n bwysig ystyried sut mae'r system Addysg a'r cwricwlwm yn cefnogi pleidleiswyr newydd o safbwynt galluogi pobl ifainc i wneud penderfyniadau gwybodus mewn etholiadau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, cefnogodd yr Aelodau'r cynnig i ymestyn etholfraint llywodraeth leol i ddinasyddion o unrhyw wlad. Roedden nhw'n teimlo, pan fo dinasyddion a thrigolion yn defnyddio ein gwasanaethau ac yn ymrwymedig i'r ardal, y dylent fod â'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol yng Nghymru, ni waeth beth yw eu statws preswylio.

Arweiniodd y cynnig i ymestyn etholfraint llywodraeth leol i garcharorion at wahaniaeth barn ymhlith yr Aelodau, a chynhaliwyd pleidlais. Dangosodd hyn fod mwyafrif yr Aelodau yn erbyn y cynnig hwn.

Roedd nifer o Aelodau yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno Pleidleisio Sengl Trosglwyddadwy (STV) mewn etholiadau llywodraeth leol, gan nodi bod y drefn yn fwy democrataidd. Serch hynny, nododd y rhan fwyf o'r aelodau eu bod nhw'n credu bod y drefn 'cyntaf i'r felin' gyfredol yn cynnig mwy o dryloywder, yn haws i'r cyhoedd ei deall ac yn darparu atebolrwydd ar lefel mwy uniongyrchol. Roedd yr holl Aelodau'n cytuno nad oedd rhoi'r gallu i awdurdodau lleol unigol ddewis trefn bleidleisio wahanol yn gynhyrchiol, yn

enwedig o ystyried maint Cymru, ac y byddai hynny'n achosi cryn ddryswch i'r etholwyr.

Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau'n cefnogi'r gwaith o newid y cylch etholiadol ar gyfer prif gynghorau o bedair blynedd i bum mlynedd.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i swyddogion a gweithwyr y Cyngor, ac eithrio'r rhai sy'n dal swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, sefyll i'w hethol yn eu Cyngor eu hunain. Roedden nhw o'r farn y byddai hyn yn peri achosion o wrthdaro buddiannau posibl, ac y gallai effeithio ar berthynas y cyflogwr/gweithiwr.

O ran talu ffioedd personol i Swyddogion Canlyniadau, roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau o'r farn y dylai'r corff perthnasol ad-dalu costau amser y Swyddogion Canlyniadau wrth ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol o weinyddu etholiadau/refferenda datganoledig i'r Awdurdod Lleol.

**Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Cafodd hyn ei groesawu gan yr holl Aelodau ond cytunwyd bod angen gwneud gwaith pellach i roi rhagor o sicrwydd cyfreithiol pan ddaw'r Bil i rym, a hynny yn seiliedig ar y profiadau o ran llywodraeth leol Lloegr. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried y gwaith a wneir gan gangen Laywers in Local Government (LLG) Cymru ymhellach.

**Rhan 3: Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol**

Croesawodd yr holl Aelodau'r bwriad o fewn y cynigion hyn, yn enwedig y rheiny a oedd yn ffurfioli llawer o'r camau rhagweithiol y mae'r Cyngor hwn eisoes wedi'u cymryd i hyrwyddo ymgysylltiad.

Er eu bod nhw'n anfodlon â'r peth, derbyniodd yr Aelodau fod angen diwygio'r cynnig i ddileu'r ddyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau Cynghorwyr, gan gydnabod yr angen i gefnogi preifatrwydd a diogelwch yr Aelodau mewn achosion lle mae bygwth ac aflonyddu yn risg.

Darlledu cyfarfodydd yn electronig - Croesawodd yr Aelodau'r cynnig yma ond roedden nhw o'r farn y dylai'r cam hwn gael ei gefnogi gan y cyllid angenrheidiol. Gwrthododd yr Aelodau'r opsiynau cost isel a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at yr anallu i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel rheswm allweddol. Roedd yr Aelodau hefyd yn teimlo bod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran cyfarfodydd sy'n wynebu'r cyhoedd yn y gymuned lle na ddylai darlledu fod yn ofynnol.

Presenoldeb o Bell - Fel egwyddor, roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig hwn. Serch hynny, byddai angen datrys rhai materion sylfaenol wrth gyflwyno'r trefniadau ymarferol; ystyriwyd bod darparu cymaint o hyblygrwydd a disgresiwn a phosibl i awdurdodau lleol unigol o ran symud cynigion o'r fath yn eu blaenau yn flaenoriaeth.

**Rhan 4: Swyddogion Gweithredol, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau'r Awdurdod Lleol**

Mae'r Aelodau'n cefnogi'r newidiadau o ran penodiad a statws Prif Weithredwyr a swyddogion gweithredol awdurdodau lleol. Serch hynny roeddent o'r farn glir eu y dylai pob swydd statudol fod yn wahanol ac ar wahân (gan gynnwys swydd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid (a151)), ac ni ddylai fod cyfle i swyddog ymgymryd â dwy rôl statudol.

**Rhan 5: Cydweithio rhwng y Prif Gynghorau**

Cyfeiriodd yr Aelodau at enghreifftiau cadarnhaol o drefniadau gweithio ar y cyd fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ond mynegwyd pryder ynghylch y diffyg craffu ar drefniadau cyd-bwyllgorau eraill, gyda rhai Aelodau'n tynnu sylw at drefniadau'r Consortiwm Addysg ar y Cyd fel enghraifft. Cred yr Aelodau y byddai deall model ehangach y llywodraeth a'r angen cysylltiedig am drefniadau craffu ar y cyd clir yn unrhyw un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) yn allweddol ar gyfer rhoi'r cynigion hyn ar waith a deall y ffordd maen nhw'n gweithredu yn y model llywodraethu llywodraeth leol ehangach.

**Rhan 6: Cyflawniad a Gwaith Llywodraethu'r Prif Gynghorau**

Yn gyffredinol, derbyniwyd y cynigion i symleiddio'r fframwaith cyflawniad ar gyfer llywodraeth leol. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig ar gyfer y Pwyllgorau Archwilio a fyddai'n golygu y byddai'r pwyllgor yn crwydro y tu allan i'w gyfrifoldeb arfaethedig o ran craffu a llywodraethu corfforaethol gyda'i gylch gwaith cynyddol. O ganlyniad i'r cynnig, roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai llai atebolrwydd democrataidd o fewn cyfrifoldeb ehangach y Cyngor. Nid oedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynigion i gynyddu nifer yr aelodau lleyg am yr un rhesymau.

**Rhan 7: Uno ac Ailstrwythuro'r Prif Ardaloedd**

Roedd yr Aelodau o blaid cydweithredu yn hytrach na diwygio llywodraeth leol yn gyfan gwbl.

**Rhannau 8 a 9 Rhannau 8 a 9 Cyllid a Diwygiadau Amrywiol**

Roedd yr Aelodau'n niwtral eu barn o ran cyllid a'r diwygiadau penodol sy'n ymwneud â:

• Cael gwared ar y pwerau i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr treth y cyngor;
• Cael gwared ar bwerau'r Panel Taliadau Annibynnol dros gyflogau Prif Swyddogion (a gyflwynwyd fel mesur dros dro yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015);
•Diddymu arolygon cymunedol;

- Diwygiadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn caniatáu dadfeilio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Newidiadau i'r Awdurdodau Tân ac Achub

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**